



Ein cyf/Our ref: MA-P/VG/1640/16

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

31 Mawrth 2016

Annwyl David

Ymchwiliad dilynol y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i berfformiad y gwasanaethau ambiwlans

Diolch ichi am eich llythyr pellach ar 9 Mawrth yn gofyn am eglurhad pellach ar nifer o'r meysydd y rhoddwyd sylw iddynt yn fy ymateb cynharach.

Rwyf wedi nodi'r pwyntiau ychwanegol a godwyd a chredaf fy mod wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd yng Nghasgliadau 1 a 2 mewn perthynas â chyhoeddi Dangosyddion Ansawdd Ambiwllans (AQIs) bob chwarter, gan gynnwys gwybodaeth gynhwysfawr ynghylch trosglwyddo cleifion. Yn ystod cyfnod cynllun peilot y model ymateb clinigol, a fydd yn para blwyddyn, bydd data AQI yn cael eu cyhoeddi bob chwarter, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o dueddiadau ac effaith amrywiadau tymhorol. Cyhoeddir y rhain ochr yn ochr â'r amseroedd ymateb 'Coch' a gyhoeddir yn fisol. Fel yr wyf wedi dweud eisoes, mae'r ffordd yr ydym yn rhannu gwybodaeth allweddol ynghylch gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru yn golygu bod ein dull gweithredu y mwyaf tryloyw yn y DU ac ymysg y mwyaf tryloyw ledled y byd.

Rwy'n croesawu'r ffaith fod y Pwyllgor yn llwyr dderbyn mai WAST sy'n gyfrifol am y trefniadau hyfforddi ac amserlennu staff fel rhan o'u rhwymedigaethau gweithredol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i werthuso'r cynnydd a wneir drwy ddefnyddio mecanweithiau sicrhad sefydledig, gan gynnwys gwerthuso Cynllun Tymor Canolig y sefydliad.

I gynnig rhagor o eglurder ynghylch trefniadau cynllunio gweithlu'r Ymddiriedolaeth, rwy'n deall mai'r bwriad ar gyfer 2016/17 - 2018-19 yw adeiladu ar sylfaen y gwaith a gyflawnwyd yn 2015/16, a pharhau i ganolbwyntio ar gynyddu nifer y staff a'r oriau cynhyrchu sydd ar gael - drwy recriwtio yn amserol a pharhau i geisio lleihau absenoldeb oherwydd salwch.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Vaughan.Gething@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd hyn yn lleihau'r angen am, a chost, goramser ac yn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i wneud y defnydd gorau o adnoddau.

Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith sydd ei angen i asesu'r capasiti ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i ateb y galw mewn perthynas â phum cam y model clinigol newydd. Bydd hefyd yn dysgu o'r gwerthusiad annibynnol o gynllun peilot y model ymateb clinigol. Bydd y gwaith hwn yn sail i ddatblygu gofynion cynllunio gweithlu tymor hir ac yn ei gwneud hi'n bosibl pennu'r lefel briodol o adnoddau sydd ei hangen, gyda'r gallu a sgiliau clinigol priodol i ymateb i'r galw ar hyn o bryd a'r galw disgwylidig.

Yn olaf, o ran Casgliad 6 a chyhoeddi'r adroddiad asesu ar ganlyniad prosiect 'Explorer' Cwm Taf - adroddiad gweithredol mewnol yw hwn ac nid yw'n benderfyniad i Lywodraeth Cymru ei wneud. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau ein bod yn annog yr holl sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn rheolaidd i ddysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu arferion da er budd cleifion.

Yn gywir

